
# Gofynion Arholiadau Ionawr 2026

## Pecynnau Papurau Cwestiynau







**Er mwyn osgoi achosion posibl o dorri diogelwch, rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y pecynnau papur cwestiynau cywir yn cael eu hagor.**

**Rhaid i'r Swyddog Arholiadau, gydag aelod arall o'r tîm arholiadau, wirio'r amser, y dyddiad ac unrhyw fanylion papur eraill cyn agor pecyn.**

## Pwnc a Rhif y Papur

Dyma'r rhif sydd wedi'i argraffu ar y papur cwestiynau a'r gofrestr presenoldeb.

## Llyfrynnau Ateb

Ar gyfer pob arholiad, rhoddir rhyw syniad o'r hyn sy'n **debygol** o fod ei angen ar bob ymgeisydd. Yn amlwg, dim ond canllaw yw'r wybodaeth hon oherwydd bydd rhai ymgeiswyr yn ysgrifennu mwy nag ymgeiswyr eraill. Fodd bynnag, mae'n rhoi syniad o ran y gofynion sylfaenol, ac mae'n nodi'r pynciau hynny lle nad oes angen y deunydd ysgrifennu hwnnw ar eu cyfer o gwbl.

Defnyddiwyd y dangosyddion canlynol:

**Y** – 16 tudalen llyfryn pinc y gellir ei sganio.
Rhaid defnyddio'r llyfryn ateb hwn ar gyfer pob arholiad lle y mae angen llyfryn ateb. Os bydd angen mwy o le i ysgrifennu ar ymgeiswyr, dylid defnyddio llyfryn pinc 4 tudalen y gellir ei sganio.
**Rhaid i ymgeiswyr ddilyn y cyfarwyddiadau ar flaen y papur cwestiynau er mwyn dynodi rhifau'r cwestiynau yn y llyfryn ateb**

**N -** Nid oes angen llyfrynnau.
Mae hyn yn berthnasol i arholiadau lle mae'r atebion i bob cwestiwn yn cael eu hysgrifennu mewn llyfryn cwestiwn ac ateb. Os bydd angen mwy o le i ysgrifennu ar ymgeiswyr, dylid defnyddio llyfryn 4 tudalen y gellir ei sganio.

Mae rhagor o wybodaeth am lyfrynnau ateb ar ein gwefannau:
WJEC and Eduqas

## Deunyddiau i'w Cyflenwi gan CBAC

Mae hyn yn cyfeirio at eitemau ychwanegol a gyhoeddir gyda'r papurau cwestiynau ac y bydd eu hangen ar yr ymgeiswyr **yn ogystal â chopi o'r papur cwestiynau, e.e. Deunydd Adnoddau, Llyfrynnau Data.**

## Deunyddiau i'w Cyflenwi gan y Ganolfan/yr Ymgeisydd

Mae hyn yn cynnwys eitemau eraill y mae'n bosibl y bydd eu hangen ar ymgeiswyr yn ystod yr arholiad, sy'n cael eu darparu gan y ganolfan / ymgeisydd (e.e. cyfrifianellau, geiriaduron ac ati.) Ni ddylai canolfannau ddarparu deunyddiau sy'n ymwneud ag arholiadau nad ydynt wedi'u rhestru i ymgeiswyr. Byddai deunyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn rhai anawdurdodedig a gallent fod yn gamymddwyn.

**Nodyn arbennig ynglŷn â Chyfrifianellau** - Dim ond lle mae'n **debygol** y bydd angen cyfrifianellau ar yr ymgeiswyr y cânt eu rhestru yn y llyfryn hwn. Fodd bynnag, maent yn cael eu caniatáu ym mhob arholiad CBAC erbyn hyn, onid yw'r fanyleb yn eu gwahardd yn benodol.

## Gwybodaeth Gyffredinol

Mae amrediad o wybodaeth pwnc-benodol wedi'i gynnwys, e.e. a ganiateir geiriaduron yn yr arholiad.

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Tynnu papurau cwestiynau o storfa ddiogel

Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o dorri diogelwch yr arholiad rhaid cymryd pob gofal i wirio bod y pecynnau papurau cwestiynau cywir yn cael eu hagor. Rhaid i aelod ychwanegol o staff y ganolfan, a allai fod yn oruchwyliwr, wirio diwrnod, dyddiad, amser, pwnc, uned/cydran a haen gofrestru'r papur, os yn briodol, cyn agor y pecyn o bapurau cwestiynau.
Rhaid cofnodi'r gwiriad hwn. Mae'r CGC wedi cynhyrchu templed i ganolfannau ei ddefnyddio. Mae hwn ar gael yn:

https://www.cbac.co.uk/media/ytpfznjp/second-pair-of-eyes-check-form-2-w.docx

**Taflenni clawr yr Ysgrifenydd / Prosesydd Geiriau.**

Ar gyfer **sgriptiau arholiad**: rhaid llenwi'r ddalen glawr a'i hatodi i sgript orffenedig yr ymgeisydd gan ddefnyddio tagiau trysorlys.

Os yw arholiad wedi'i gwblhau gan ddefnyddio prosesydd geiriau ac nad oes unrhyw lyfrau ateb wedi'u defnyddio i gofnodi unrhyw atebion, ni ddylai canolfannau anfon y llyfrau ateb hynny.

**Sylwch ein bod yn gofyn i ymgeiswyr sy'n defnyddio prosesydd geiriau:**

- ychwanegu pennyn neu droedyn i gynnwys **rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd a chod yr uned/cydran.** Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ymgeiswyr ar bob dalen.
- defnyddio maint ffont lleiaf o 12pt
- defnyddio bylchau dwbl
- cynnwys rhifau tudalennau ar bob dalen

Wrth argraffu'r sgript ar ôl yr arholiad, dylai ymgeiswyr fod yn bresennol i gadarnhau mai eu gwaith hwy yw'r gwaith a'i fod wedi'i argraffu yn ei gyfanrwydd.
Lle mae'r ymgeisydd yn defnyddio cyfuniad o lyfr cwestiwn ac ateb a dogfen ar brosesydd geiriau, rhaid atodi'r tudalennau printiedig i'r llyfr cwestiwn ac ateb cyn eu hanfon at yr arholwr.

Mae dalennau clawr prosesydd geiriau ar gael ar y wefan.
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/arholiadau/#tab_0

**Iawrlwytho Paper Cwsetiwn**

Bydd papurau cwestiynau ar gael i'w lawrlwytho o'r Portal 60 munud cyn amser dechrau'r arholiad cyhoeddedig ar ddiwrnod yr arholiadau.
Bydd Swyddogion Arholiadau a defnyddwyr Gweinyddol yn gallu cyrchu'r ffeiliau hyn yn '**Papurau Cwestiynau Heddiw**' o dan '**Gwybodaeth Allweddol**' a bydd angen cofnod cyfatebol ar ganolfannau i'w gweld a'u lawrlwytho.

Os nad yw'r asesiad/adnodd gofynnol wedi'i restru, ffoniwch yr adran isod am gymorth i gael mynediad at y ffeiliau hyn.
https://portal.wjec.co.uk/

## Cysylltiadau

- 02920 26 5154 - TGAU
- 02920 265444 - Llwybrau (Lefel 1 Cymwysterau Cyffredinol, Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 / Lefel 2, HSCCC)